# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(280)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cyhoeddi Adroddiad Flynn (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyflwyniad i'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (60 munud)**

**5 Dadl ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2015-2016 (30 munud)**

**NDM5798 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2015.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Ategol**
Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**6 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 (45 munud)**

**NDM5813 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Llythyr o Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)**

**NDM5814 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Gosodwyd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 23 Chwefror 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 3 Gorffennaf 2015.

**Dogfennau Ategol**
Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Llythyr o Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol a'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
(Saesneg yn unig)

**8 Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (5 munud)**

**NDM5815 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Gorffennaf 2015 i'w hateb ar 14 Gorffennaf 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2413(FM)

**2. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch trydaneiddio'r brif linell rhwng Llundain ac Abertawe? OAQ(4)2403(FM)

**3. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad yn GIG Cymru? OAQ(4)2411(FM)

**4. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol ynni gwynt ar y tir yng Nghymru? OAQ(4)2407(FM)**W**

**5. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)2416(FM)

**6. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnal gwasanaethau obstetreg dan arweiniad meddygon ymgynghorol ar safle'r tri ysbyty cyffredinol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2408(FM)**W**

**7. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)2404(FM)**R**

**8. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir? OAQ(4)2402(FM)

**9. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith cyllideb Llywodraeth y DU ar deuluoedd yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)2410(FM)

**10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw'r arwyddocâd i Gymru o ganolfan rhagoriaeth gyntaf y DU ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd ym Mhrifysgol Caerdydd? OAQ(4)2418(FM)

**11. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyfforddi nyrsys ar gyfer y sector gofal? OAQ(4)2415(FM)**W**

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol addysg uwchradd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn sgil adroddiad Donaldson? OAQ(4)2406(FM)

**13. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd yn Sir Fynwy? OAQ(4)2405(FM)

**14. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y bydd cyllideb Llywodraeth y DU yn ei chael ar lefelau o dlodi yng Nghymru? OAQ(4)2414(FM)

**15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r fargen dinas arfaethedig ar gyfer Caerdydd? OAQ(4)2417(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 15 Medi 2015 a dydd Mercher 16 Medi 2015**
**Dydd Mawrth 22 Medi 2015 a dydd Mercher 23 Medi 2015**
**Dydd Mawrth 29 Medi 2015 a dydd Mercher 30 Medi 2015**

---

**Dydd Mawrth 15 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Datblygu arfer proffesiynol – y wybodaeth ddiweddaraf am y Fargen Newydd (30 munud)

**Dydd Mercher 16 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 22 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru (30 munud)

**Dydd Mercher 23 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ystyried deiseb – Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 29 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

**Dydd Mercher 30 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ystyried deiseb – Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau Bod Diffibrilwyr ar Gael Ym Mhob Man Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)